Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Busnes**

# Amserlen diwygiedig ar gyfer ystyried:

# Y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer y Bil Cenedligrwydd a Ffiniau

Ionawr 2022

Ar 7 Rhagfyr 2021 cytunodd y Pwyllgor Busnes, yn unol â Rheol Sefydlog 29.4(i), i wahodd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol a'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad i ystyried a chyflwyno adroddiad ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Cenedligrwydd a Ffiniau.

Yn unol â Rheol Sefydlog 29.4(ii), cytunodd y Pwyllgor Busnes y dylai'r Pwyllgorau gyflwyno adroddiad i'r Senedd erbyn 10 Chwefror 2022.

Ar 14 Rhagfyr 2021 cytunodd y Pwyllgor Busnes i hefyd wahodd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg i ystyried a chyflwyno adroddiad ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Cenedligrwydd a Ffiniau erbyn 10 Chwefror 2022.

Yn y cyfarfod ar 11 Ionawr 2022, cytunodd y Pwyllgor Busnes i ymestyn y dyddiad cau i bob Pwyllgor ystyried y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol atodol a chyflwyno adroddiad arno i 17 Chwefror 2022.